Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Glyncollen
**Heol Dolfain**
**Ynysforgan**
**Abertawe**
**SA6 6QF**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

® **Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/08/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Glyncollen yn Nhreforys yn Abertawe. Mae 245 o ddisgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed ar gofrestr yr ysgol. Mae wyth o ddosbarthiadau un oedran, gan gynnwys dosbarth meithrin. Mae pum athro amser llawn a thri athro rhan-amser yn yr ysgol.

Mae tua 10% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghymru (20%).

Mae'r ysgol wedi nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan tua 30% o ddisgyblion, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (25%). Mae datganiad o anghenion addysgol arbennig gan ychydig o ddisgyblion. Mae bron pob un o'r disgyblion yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf y cartref.

Yn 2010 y cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf. Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Ionawr 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Glyncollen yn 2015-2016 yw £3,188. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion cynradd yn Abertawe yw £5,006 a'r lleiafswm yw £2,556. Mae Ysgol Gynradd Glyncollen yn safle 47 o'r 79 o ysgolion cynradd yn Abertawe o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- mae bron yr holl ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda
- mae'r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu
- mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn cyfranogi'n dda mewn gwersi a bywyd yr ysgol
- mae'r cymorth i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn eu galluogi i wneud cynnydd llwyddiannus
- mae ansawdd yr addysgu yn dda
- mae'r staff cymorth yn darparu cymorth gwerthfawr i ddisgyblion ac yn cyfrannu'n dda at redeg yr ysgol o ddydd i ddydd
- mae staff yn defnyddio data perfformiad yn effeithiol i fonitro cynnydd disgyblion
- mae'r ysgol yn amgylchedd croesawgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn dangos gofal a pharch at ei gilydd

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarnhaol yn seiliedig ar hawliau disgyblion, ac mae'n cyfleu'r weledigaeth yn dda i bob un o'r staff, disgyblion a rhieni
- mae'r ysgol yn bodloni anghenion yr holl ddisgyblion yn effeithiol
- mae uwch arweinwyr yn gwneud cyfraniad pwrpasol at wella'r ysgol
- mae staff yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad disgyblion i arfarnu perfformiad yr ysgol yn gywir ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer gwella
- mae'r staff yn gweithio'n dda iawn fel tîm
- mae'r corff llywodraethol yn darparu cymorth cadarn i arweinwyr yr ysgol
- mae hanes da gan yr ysgol o wneud gwelliannau er budd disgyblion
- mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian

## Argymhellion

A1 Gwella cywirdeb ysgrifennu disgyblion yng nghyfnod allweddol 2

A2 Gwella presenoldeb

A3 Ehangu cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm ar lefel briodol

A4 Gwella adborth ysgrifenedig i ddisgyblion fel eu bod yn gwybod sut i wella eu gwaith

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol gyda'r lefelau medrau disgwyliedig ar gyfer eu hoedran, ac maent yn cyflawni'n dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Gwnânt gynnydd da wrth siarad a gwrando. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n bwrpasol ac yn gofyn ac yn ateb cwestiynau neu'n siarad am eu diddordebau'n hyderus erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Mae bron pob un ohonynt yn gwneud cyfraniadau clir a brwdfrydig at drafodaethau. Mae disgyblion hŷn yn defnyddio ystod eang o eirfa addas i esbonio'u syniadau yn fanwl, er enghraifft pan fyddant yn cyd-drafod nodweddion pwysicaf arwr neu'n cyfiawnhau'u hymresymu wrth ddatrys problemau mathemategol.

Mae disgyblion yn datblygu'u medrau darllen yn systematig yn ystod eu hamser yn yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth am seiniau llythrennau a chyd-destun storïau i ddehongli geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darllen cyfarwyddiadau a chwestiynau syml yn annibynnol. Maent yn dangos mwynhad wrth ddarllen ac yn siarad yn frwdfrydig am hoff awduron a thestunau. Maent yn adnabod y darlunydd ac yn gwerthfawrogi'r hiwmor mewn storïau y maent yn eu hadnabod yn dda.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn ehangu'u medrau darllen ac yn dal i fwynhau darllen at ystod o ddibenion. Maent yn gwerthfawrogi genres gwahanol, fel trasiedi, hiwmor neu lyfrau ffeithiol, ac yn dangos dealltwriaeth dda iawn o'r hyn maent yn ei ddarllen. Daw bron pob un ohonynt yn ddarllenwyr rhugl sy'n gallu llithrddarllen a bwrw golwg dros destun i gael gwybodaeth. Erbyn iddynt gyrraedd cyfnod allweddol 2 uchaf, maent yn gwneud defnydd da o'u medrau darllen i ymchwilio i destunau, fel credoau crefyddol ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth neu roi organau, yn yr ysgol ac fel rhan o'u dysgu gartref.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu'n briodol, ac yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n annibynnol wrth ateb cwestiynau neu ysgrifennu stori fer. Mae disgyblion hŷn yn ysgrifennu at ystod eang o ddibenion, er enghraifft i wneud taflenni sy'n hyrwyddo rhoi organau neu i gofnodi'u canfyddiadau ar ôl ymchwilio i effeithiau dogni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cwblhau darnau ysgrifennu annibynnol o hyd a chynnwys addas. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn cynhyrchu gwaith sy'n cynnwys camgymeriadau sillafu. Mae llawysgrifen disgyblion yn ddarllenadwy yn gyffredinol, ond dim ond digonol yw ansawdd cyflwyniad disgyblion o'u gwaith.

Mae disgyblion yn datblygu'u medrau mathemategol yn dda wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adio ac yn tynnu rhifau dau ddigid a gallant gyfrif ymlaen ac yn ôl ar linell rhifau. Maent yn defnyddio data i gynhyrchu graffiau bar yn llwyddiannus. Maent yn dechrau deall mesurau safonol ac arian. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn magu mwy a mwy o hyder wrth ddatrys amrywiaeth o broblemau mathemategol trwy broses o

brofi a methu. Maent yn gweithio'n hyderus mewn gwersi mathemateg ac mae'r rhan fwyaf yn defnyddio strategaethau y maent wedi'u dysgu i ateb cwestiynau sy'n cynnwys rhifau chwe digid, degolion a ffracsiynau. Maent yn tynnu data ystadegol sylfaenol o'u hymchwil yn dda. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn aml yn cymhwyso'u medrau rhifedd mewn pynciau eraill ar lefel uchel briodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae bron yr holl ddisgyblion yn mynegi brwdfrydedd dros ddysgu'r Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cyfnewid cyfarchion dyddiol, yn gofyn cwestiynau syml ac yn deall cyfarwyddiadau cyfarwydd yn yr ystafell ddosbarth. Maent yn darllen testunau syml, yn ynganu geiriau'n gywir ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r testun. Maent yn dechrau ysgrifennu'r geiriau a'r ymadroddion y maent yn eu gwybod. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae disgyblion yn dysgu ystod ehangach o eirfa ac ymadroddion Cymraeg, a gall y rhan fwyaf ddefnyddio'r gorffennol i sôn am eu profiadau, er enghraifft eu taith i'r amgueddfa leol. Maent yn ateb cwestiynau am destunau cyfarwydd yn hyderus, a gallant ymestyn sgwrs. Bydd y rhan fwyaf yn darllen ac yn ysgrifennu at ystod o ddibenion, gan gynnwys cardiau post, cofnodion dyddiadur neu ddeialogau yn Gymraeg ar lefel briodol.

Dros y pedair blynedd diwethaf, ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol o ran y deilliant disgwyliedig wedi amrywio. Fodd bynnag, mae tuedd o wella, a'r llynedd fe wnaeth perfformiad disgyblion osod yr ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. O ran y deilliant uwch, mae perfformiad disgyblion yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch yn bennaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad disgyblion mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth dros yr un cyfnod wedi tueddu gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ran y deilliant disgwyliedig a'r deilliant uwch o gymharu ag ysgolion tebyg.

**Lles: Digonol**

Mae bron yr holl ddisgyblion yn teimlo eu bod yn ddiogel yn yr ysgol. Maent yn hyderus y bydd pob un o'r staff yn ymdrin ag unrhyw bryderon o ddifrif ac yn gweithredu arnynt yn gyflym ac yn deg. Mae bron yr holl ddisgyblion yn deall pwysigrwydd gwneud ymarfer corff rheolaidd ac maent yn teimlo bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach. Mae llawer yn mynychu ystod o weithgareddau ar ôl ysgol, gan gynnwys rhedeg traws gwlad, athletau a chlybiau chwaraeon eraill.

Mae bron yr holl ddisgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. Maent yn gwrtais ac yn gefnogol tuag at ei gilydd. Maent yn mwynhau dysgu ac yn cyfranogi'n frwd mewn ystod eang o brofiadau dysgu. Mae disgyblion yn gweithio'n dda ochr yn ochr â'u cyfoedion ac yn cefnogi syniadau ei gilydd.

Mae disgyblion yn cyfranogi'n dda ym mywyd yr ysgol, er enghraifft drwy'r cyngor ysgol effeithiol a grwpiau ditectifs dysgu. Mae'r 'Ffrindiau Ffitrwydd' wedi cwblhau arolygon ac maent wedi gofyn am newid i ddigwyddiadau diwrnod chwaraeon. Yn aml, mae disgyblion yn gwneud dewisiadau ynglŷn â chynnwys eu dysgu. Maent yn mwynhau cyfleoedd i gymryd cyfrifoldeb, fel pan fyddant yn gweithio gyda rhieni i drefnu ffair Nadolig neu weithio tuag at gystadleuaeth Abertawe yn ei Blodau trwy ddatblygu tir yr ysgol.

Mae cyfraddau presenoldeb wedi gwella'n gyson dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol yn parhau i osod yr ysgol yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae bron yr holl ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon ar gyfer dechrau'r diwrnod ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu cyffrous ac ysgogol sy'n cymell ac yn ennyn diddordeb bron yr holl ddisgyblion. Mae cwricwlwm yr ysgol yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae cynllunio a threfnu manwl yn sicrhau bod tasgau'n diwallu anghenion penodol grwpiau ac unigolion penodol. Yn aml, mae'r dysgu'n cysylltu â thestunau sydd o ddiddordeb arbennig i'r disgyblion, fel artistiaid lleol, ffilmiau poblogaidd a materion cyfoes. Yn y ddau gyfnod allweddol, mae'r cynllunio yn sicrhau y gwneir defnydd rheolaidd ac effeithiol o'r amgylchedd awyr agored, ac mae hyn yn gwella'r profiadau dysgu ymhellach ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae'r cyfleoedd niferus i ymweld â mannau o ddiddordeb yn cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae disgyblion yn elwa ar ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol.

Mae medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth disgyblion yn datblygu'n systematig ar draws yr ysgol. Ceir cyfleoedd addas i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn, er enghraifft pan fyddant yn gwneud taflenni i hyrwyddo'u ffair Nadolig. Fodd bynnag, nid yw cyfleoedd i ddefnyddio'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi'u datblygu gystal.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn helaeth. Caiff disgyblion lawer o gyfleoedd i ymweld â mannau o ddiddordeb, fel Marchnad Abertawe, y Bathdy Brenhinol, Castell Caerdydd ac Ogofâu Arddangos Cenedlaethol Dan yr Ogof. Mae disgyblion yn astudio Santes Dwynwen ac yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi gydag eisteddfod, gan gynnwys seremoni cadeirio'r bardd. Mae disgyblion yn astudio gwaith artistiaid ac awduron o Gymru, fel Roald Dahl.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am sut i ymddwyn yn gyfrifol i greu amgylchedd cynaliadwy. Mae'r pwyllgor eco gweithgar yn annog ailgylchu ac yn hyrwyddo mentrau arbed ynni yn dda. Maent wedi plannu blodau ac adeiladu cerfluniau ar dir yr ysgol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion ddysgu am eu cyfrifoldebau fel dinasyddion byd-eang. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi sefydlu cysylltiadau gyda choleg lleol i godi arian ar gyfer ysgol yn Kenya.

**Addysgu: Da**

Mae athrawon yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb yr holl ddysgwyr. Gwnânt ddefnydd da o syniadau disgyblion eu hunain ac maent yn ystyried eu hawgrymiadau ynglŷn â sut byddent yn dymuno dysgu. Er enghraifft, maent yn newid rheolau gêm mewn addysg gorfforol i ymgorffori argymhellion disgyblion. Maent yn sicrhau eu bod yn addasu'r gwaith i ddiwallu

anghenion yr holl ddisgyblion. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn at ddysgu disgyblion. Maent yn darparu cymorth ac arweiniad defnyddiol sy'n cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd da a wneir gan ddisgyblion. Mae pob un o'r staff yn sefydlu perthnasau gweithio cadarnhaol gyda disgyblion. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda, ac mae hyn yn llywio'u haddysgu yn effeithiol.

Mae athrawon yn galluogi disgyblion i weithio'n dda gyda disgyblion eraill ac yn annibynnol. Mae ganddynt wybodaeth dda am y pynciau maent yn eu haddysgu, ac yn defnyddio techneg holi'n effeithiol i hyrwyddo medrau meddwl disgyblion a'u gallu i ystyried safbwyntiau gwahanol. Gwnânt ddefnydd arbennig o dda o'r amgylchedd awyr agored i ennyn diddordeb disgyblion a hyrwyddo'u lles a'u medrau.

Mae pob oedolyn yn darparu cymorth ac anogaeth i ddisgyblion yn gyson. Mae athrawon yn rhoi adborth rheolaidd a chadarnhaol i ddisgyblion ar eu gwaith a'u cynnydd. Weithiau, mae athrawon yn herio disgyblion i ddatblygu'u gwaith ymhellach, ond ar brydiau, nid yw marcio'r athrawon yn helpu disgyblion i wella eu gwaith digon. Mae pob un o'r athrawon yn helpu disgyblion i ddeall eu targedau cyffredinol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn annog disgyblion yn rheolaidd i fyfyrio ar eu gwaith er mwyn gwella camgymeriadau sylfaenol yn eu sillafu a'u cyflwyniad.

Mae'r ysgol yn olrhain cynnydd a lles disgyblion yn effeithiol ar lefel unigol a grŵp. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau bod disgyblion yn cynnal eu cynnydd ac i ddarparu cymorth ychwanegol lle bo angen. Mae adroddiadau blynyddol yn fanwl ac yn ddefnyddiol o ran disgrifio'r cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a threfnus sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae'n darparu cymorth ac arweiniad cadarn ar gyfer disgyblion drwy ei rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol effeithiol, yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae staff yn addysgu disgyblion ynglŷn â gwerthoedd cadarnhaol, fel ystyrioldeb a chydweithredu. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch ac ystyriaeth ac yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion.

Gwneir trefniadau priodol gan yr ysgol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae grwpiau llais y disgybl, fel 'Ffrindiau Ffitrwydd' a 'Gwarcheidwaid Glyncollen', yn hyrwyddo bwyta'n iach a dinasyddiaeth dda. Mae'r defnydd effeithiol o dir yr ysgol yn hyrwyddo gweithgarwch awyr agored a gwerthfawrogiad o natur. Mae gweithredoedd o gyd-addoli yn atgyfnerthu gwerthoedd yr ysgol ac yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion fyfyrio ar eu gweithredoedd a'u gwerthoedd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion ychwanegol yn nodwedd gref o'r ysgol. Mae athrawon yn nodi disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt yn gynnar. Mae staff yn defnyddio ystod eang o strategaethau ymyrryd buddiol iawn, fel cymorth lleferydd ac iaith, darpariaeth ddarllen ychwanegol a'r rhaglen anogaeth awyr agored. Mae targedau addas gan ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn eu cynlluniau unigol. Mae'r ysgol yn defnyddio cyngor arbenigol yn effeithiol lle bo'n

briodol. Mae athrawon yn adolygu cynlluniau unigol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd gyda disgyblion a rhieni. Mae'r monitro manwl hwn o gynnydd disgyblion yn erbyn targedau yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol gan yr ysgol i hyrwyddo diogelwch ar y rhyngrwyd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Ceir cymhellion addas i hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb da yn yr ysgol, ac mae'r rhain yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb cyffredinol disgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar, lle mae staff yn gwerthfawrogi ac yn gofalu am ddisgyblion yn dda. Caiff yr holl ddisgyblion fanteisio ar y cyfleoedd dysgu a'r ystod eang o weithgareddau allgyrsiol sy'n cael eu cynnig. Rhoddir pwyslais cadarn, pwrpasol ar hyrwyddo hawliau pob plentyn. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ystod o werthoedd sy'n adlewyrchu'r gred y dylai pob plentyn gael lleisio ei farn a bod pawb yn haeddu parch. O ganlyniad, mae disgyblion yn gwbl ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae hyn yn eu galluogi i weithio'n dda gyda'i gilydd mewn awyrgylch o gefnogi a gwerthfawrogi amrywiaeth.

Mae gan yr ysgol lefel dda o adnoddau ar gyfer nifer y disgyblion ar y gofrestr. Mae tir yr ysgol yn helaeth, ac mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at y profiadau a'r cyfleoedd dysgu ar gyfer disgyblion. Mae'r ysgol wedi datblygu'r safle yn dda, ac mae'n cynnwys ardal goetir, rhandiroedd a maes chwarae. Mae'r defnydd effeithiol a wneir o'r amgylchedd awyr agored yn cyfrannu'n sylweddol at les disgyblion. Mae adeilad yr ysgol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Ceir arddangosiadau o ansawdd da sy'n gwella dysgu'r disgyblion, gan eu galluogi i arddangos eu gwaith a hyrwyddo'u cyfranogiad effeithiol ym mywyd yr ysgol.

| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth yn hyrwyddo gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, rhieni a disgyblion. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion. Mae'n arwain tîm o staff sydd ag ymrwymiad cadarn i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion. Mae rolau pendant gan bob un o'r staff ac mae arweinwyr yn rhannu'u cyfrifoldebau yn effeithiol. Mae gwaith tîm yn nodwedd gref o fywyd yr ysgol ac mae cydweithio rhwng y staff yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal ansawdd da yr addysgu a'r dysgu. Mae staff yn rhannu syniadau ac arfer orau yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu athrawon i fyfyrio'n dda ar eu haddysgu eu hunain ac yn helpu i gynnal addysgu o ansawdd gyson dda ar draws yr ysgol.

Cynhelir cyfarfodydd staff a chyfarfodydd y tîm arwain yn rheolaidd, ac maent yn canolbwyntio'n briodol ar gynnydd a chyflawniad disgyblion, ac ar gynllunio ar gyfer gwella'r ysgol.  Ceir prosesau rheoli perfformiad sefydledig ar gyfer athrawon a staff cymorth.  Mae targedau realistig, datblygiadol gan staff sy'n cysylltu'n glir â blaenoriaethau'r ysgol.  Mae'r ysgol yn talu sylw manwl i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys y prosiect cenedlaethol Ysgolion Arloesi a'r Siarter Iaith.  Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn adnabod y gymuned leol yn dda.  Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella.  Mae rôl y llywodraethwyr fel ffrindiau beirniadol yn datblygu'n effeithiol, ac maent yn dechrau herio'r ysgol yn fwy cadarn.

**Gwella ansawdd:  Da**

Mae'r broses hunanarfarnu wedi'i sefydlu'n dda ac yn effeithiol.  Mae'n galluogi'r ysgol i nodi ei chryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir.  Mae pob aelod o staff a'r llywodraethwyr yn cymryd rhan yn y broses, ac mae'n defnyddio gwybodaeth o ystod eang addas o dystiolaeth uniongyrchol.  Mae hyn yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, craffu ar waith disgyblion ac arsylwadau gwersi.  Mae rhieni'n cyfrannu at y broses arfarnu drwy ymateb i holiaduron a thrwy'r fforwm rhieni.  Mae'r ysgol yn ymateb yn dda i'w barnau ac mae wedi gweithio gyda nhw i lunio polisïau a gweithdrefnau newydd, er enghraifft y polisi dysgu gartref.  Mae disgyblion yn arfarnu gwaith yr ysgol yn dda ac maent wedi sicrhau newidiadau cadarnhaol i drefniant digwyddiadau chwaraeon ac i addysgu Cymraeg.

Mae'r ysgol yn defnyddio canlyniadau'r broses hunanarfarnu'n effeithiol i lywio cynllun datblygu'r ysgol.  Mae'r cynllun hwn yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau'r holl staff yn glir ac yn fanwl o ran gweithredu camau ar gyfer gwella.  Mae'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel parhau i wella presenoldeb disgyblion.  Mae'r meini prawf llwyddo ar gyfer barnu llwyddiant camau o fewn y cynllun yn glir, ac maent yn cynnwys graddfeydd amser realistig.  Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ffynonellau ariannu i fynd i'r afael â phob blaenoriaeth o fewn y cynllun.  Ceir hanes da o sicrhau gwelliant, er enghraifft mewn perthynas ag ansawdd yr addysgu, y Gymraeg a chynllunio'r cwricwlwm.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhieni trwy gylchlythyrau, post electronig a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.  Mae'r sianelau hyn yn galluogi rhieni i ddeall gwaith yr ysgol ac i ymgysylltu'n effeithiol â dysgu eu plant.  Mae'r gymdeithas rieni ac athrawon yn gwneud cyfraniadau ariannol gwerthfawr i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion, er enghraifft drwy ariannu ystafell ddosbarth awyr agored a llwyfan.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â'r awdurdod lleol.  Mae'n rhannu ei harfer dda ac yn darparu cymorth i ysgolion yn yr ardal a thu hwnt.  Mae enghreifftiau nodedig yn cynnwys rhannu addysgu a dysgu da mewn mathemateg, gwyddoniaeth a thechnegau dweud stori.  Ceir gweithdrefnau addas ar waith i safoni a chymedroli gwaith disgyblion yn y clwstwr o ysgolion lleol.

Mae'r trefniadau ar gyfer paratoi disgyblion newydd i ymuno â'r ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau bod y disgyblion iau yn ymgartrefu'n hyderus yn y dosbarth meithrin. Mae trefniadau pontio da gyda'r ysgolion uwchradd lleol yn sicrhau bod disgyblion yn hyderus i symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Ceir cysylltiadau cadarn gyda'r gymuned, sy'n sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd cyfrannu at eu hardal leol. Er enghraifft, mae disgyblion yn codi arian at elusennau lleol ac yn perfformio mewn eglwysi ac yng nghanol y dref. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol i arwain gweithredoedd cydaddoli, i blannu a gofalu am flodau yn yr ardd ac i ddarparu hyfforddiant rygbi i ddisgyblion hŷn.

Mae'r ysgol yn cydweithredu'n dda gydag asiantaethau allanol arbenigol i sicrhau bod cymorth effeithiol ar gael i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Er enghraifft, gweithiodd staff gydag ysgolion lleol eraill i ddatblygu darpariaeth anogaeth effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau ar les disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae digon o staff profiadol â chymwysterau da yn yr ysgol i addysgu pob agwedd ar y cwricwlwm. Mae arweinwyr yr ysgol yn defnyddio staff addysgu a staff cymorth dysgu yn dda i wneud y defnydd gorau o'u harbenigedd er mwyn gwella profiadau dysgu disgyblion, er enghraifft mewn cerddoriaeth, Cymraeg ac athroniaeth i blant.

Mae'r prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi anghenion datblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff yn effeithiol. Mae pob un ohonynt yn cael hyfforddiant addas i ddatblygu'u medrau ac i wella deilliannau ar gyfer disgyblion. Ceir trefniadau addas ar gyfer amser cynllunio, paratoi ac asesu athrawon. Mae'r trefniadau hyn yn cefnogi'r ysgol yn dda o ran cyflawni ei nodau a'i blaenoriaethau strategol. Ceir cyfleoedd da i staff ymgysylltu ag ysgolion eraill er mwyn rhannu arfer dda. Mae'r rhain yn cyfrannu'n dda at wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau ar gyfer disgyblion.

Mae'r ysgol yn rheoli ei chyllideb yn ofalus. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr, mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol, yn monitro gwariant yn effeithlon. Mae cysylltiad da rhwng penderfyniadau gwario a blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'i Grant Amddifadedd Dsgyblion i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion sy'n agored i niwed, er enghraifft y rhaglenni lleferydd ac iaith a strategaethau i gefnogi lles disgyblion.

O ystyried y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6702226 - Ysgol Gynradd Glyncollen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 241 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 29 | 30 | 25 | 29 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 82.8 | 66.7 | 88.0 | 96.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 3 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 25 | 29 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.6 | 76.7 | 92.0 | 96.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.0 | 26.7 | 36.0 | 58.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 25 | 29 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 86.2 | 66.7 | 96.0 | 96.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 27.6 | 20.0 | 32.0 | 41.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 29 | 30 | 25 | 29 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 96.6 | 90.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 44.8 | 46.7 | 52.0 | 82.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6702226 - Ysgol Gynradd Glyncollen**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 241 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 9.8 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 26 | 29 | 26 | 26 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 88.5 | 100.0 | 100.0 | 96.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 29 | 26 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 100.0 | 100.0 | 96.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.3 | 48.3 | 23.1 | 46.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 29 | 26 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 96.2 | 100.0 | 100.0 | 96.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.3 | 41.4 | 19.2 | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 29 | 26 | 26 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 96.2 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 58.6 | * | 50.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | * | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Further information is available from the Welsh Government My Local School website at the link below.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?lang=eng

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 96 | 95 | 1 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 99% | 1% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 84 | 12 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 88% | 12% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 96 | 89 | 7 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 93% | 7% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 96 | 91 | 5 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 96 | 93 | 3 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 96 | 93 | 3 | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 96 | 96 | 0 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 96 | 93 | 3 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 95 | 77 | 18 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 81% | 19% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 96 | 87 | 9 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 91% | 9% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 96 | 76 | 20 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 79% | 21% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 95 | 79 | 16 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 83% | 17% | |
| | | 84% | 16% | |

# Ymatebion i'r holiadur i rieni

Mae'n dynodi'r meincnod – dyma gyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 71 | 37 | 30 | 3 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 52% | 42% | 4% | 1% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 71 | 47 | 24 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 70 | 38 | 29 | 3 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 54% | 41% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 71 | 30 | 37 | 4 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 42% | 52% | 6% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 66 | 30 | 35 | 1 | 0 | 5 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 45% | 53% | 2% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 69 | 33 | 34 | 2 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 48% | 49% | 3% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 68 | 34 | 31 | 3 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 50% | 46% | 4% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 66 | 20 | 33 | 10 | 3 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 30% | 50% | 15% | 5% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 70 | 32 | 32 | 6 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 46% | 46% | 9% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 70 | 37 | 28 | 4 | 1 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 53% | 40% | 6% | 1% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 69 | 46 | 22 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 32% | 1% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 58 | 28 | 27 | 3 | 0 | 13 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 48% | 47% | 5% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 71 | 34 | 29 | 5 | 3 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 48% | 41% | 7% | 4% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 71 | 40<br>56% | 25<br>35% | 5<br>7% | 1<br>1% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 63 | 25<br>40% | 30<br>48% | 6<br>10% | 2<br>3% | 8 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 68 | 31<br>46% | 34<br>50% | 3<br>4% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 50 | 16<br>32% | 30<br>60% | 3<br>6% | 1<br>2% | 20 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 70 | 36<br>51% | 27<br>39% | 5<br>7% | 2<br>3% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 67 | 32<br>48% | 33<br>49% | 2<br>3% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Catherine Anne Barnett | Arolygydd Cofnodol |
| Rhian Jones | Arolygydd Tîm |
| Terry James Davies | Arolygydd Lleyg |
| Nicola Rhianne Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Anna Bolt | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn 11 oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.